



Cyda'n Gilydd Dysgw'n Ddisgleirio - Learning To Shine Together

DATGANIAD GRANT AMDDIFAEDEDD DISGYBLION 2019 - 2020

Grant Llywodraeth Cymru – **GRANT AMDDIFAEDEDD DISGYBLION**

Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol TUDNO

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. Gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. Integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. Gydbwysu ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.
4. Datblygu systemau a phrosesau effeithiol ar gyfer tracio cynnydd disgyblion.

Yn **2019-20** rhoddwyd i Ysgol Tudno ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o **£62,100**.

Yn Ysgol Tudno mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Conwy a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Gefnogi'r Tim Lles – i gynnwys aelod o staff i weithredu ac arwain rhaglenni ymyrraeth gyda grwpiau i leihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion PYD a'r disgyblion sydd heb fod yn gymwys ar gyfer PYD
- Gyflogi staff addysgol cynorthwyol Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion ac unigolion.
- Datblygu a chyllido rhaglenni ymyrraeth penodol e.e. DYFAL DONC/SAFMEDS /HEADSPROUTS gan gefnogi addysg y disgyblion.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.